

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad

7 Hydref 2022

Annwyl Mick

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Yn ein cyfarfod ar 3 Hydref 2022, gwnaethom drafod gohebiaeth a gawsom gan randdeiliaid allanol mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (gweler papurau 17 i 21). Bydd y safbwyntiau arbenigol a gafodd eu cynnig gan y sefydliadau a'r unigolion hynny yn cael eu codi gyda chi pan fyddwch yn dod i'n cyfarfod ar 14 Tachwedd. Fodd bynnag, cyn y sesiwn honno, byddem yn ddiolchgar pe baech yn adolygu'r sylwadau a wnaed gan Dr Hayley Roberts ac eraill ynghylch eithrio'r amgylchedd morol o'r Bil. Er ein bod yn cydnabod bod y mater hwn wedi'i drafod yn flaenorol – ar 11 Gorffennaf 2022 ac yn eich gohebiaeth atom dyddiedig 17 Awst 2022 – byddem yn croesawu eich sylwadau ar y pwyntiau penodol a godwyd gan Dr Roberts.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 4 Tachwedd 2022.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

